

ATODIAD DROS DRO DIWYGIEDIG I'R "GWEITHDREFNAU GWEITHREDOL AR GYFER AELODAU O'R CYHOEDD YN ANNERCH Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU" MEWN YMATEB I COVID-19

Nid yw'r atodiad dros dro i'r "Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer Aelodau o'r Cyhoedd yn Annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu" mewn ymateb i COVID-19, lle'r oedd cyflwyniadau ysgrifenedig o ddim mwy na 500 i'w darllen yn y Pwyllgor, yn berthnasol mwyach.

Digwyddodd yr atodiad o ganlyniad i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020). Effaith y Rheoliadau oedd atal dros dro'r "Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer Aelodau o'r Cyhoedd yn Annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu" yn y Cyfansoddiad.

Mae'r Gweithdrefnau hyn bellach wedi'u hadfer ac maent i'w gweld yma- Rhan 4 Dogfen. I:

<https://www.ceredigion.gov.uk/media/8986/cyfansoddiad-cyngor-sir-ceredigion-mawrth-2021.pdf>

O 13 Hydref 2021 bydd ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr yn cael cyfle i annerch y Pwyllgor yn uniongyrchol trwy 'zoom' am uchafswm o 5 munud. Os yw mwy nag un gwrthwynebydd eisiau siarad, anogir gwrthwynebwyr naill ai i benodi un llefarydd neu rannu'r 5 munud sydd ar gael. Rhaid i'r materion a godir ymwneud ag ystyriaethau cynllunio perthnasol yn unig.

Os dewiswch gyflwyno'ch sylw, bydd angen i chi hysbysu Clerc y Pwyllgor ymlaen llaw er mwyn i fynediad priodol gael ei roi yn ystod y cyfarfod. Byddwch yn cael dolen 'Attendee' zoom, a fydd yn cael ei throsglwyddo i 'Panellist' zoom trwy gydol eich cyflwyniad. Yn ystod yr amser hwn, byddwch yn weladwy ac yn glywadwy. Fodd bynnag, bydd angen i chi droi eich camera a'ch meicroffon ymlaen unwaith y bydd eich cysylltiad wedi'i drosglwyddo. Bydd angen hysbysu Clerc y Pwyllgor erbyn hanner dydd ar y dydd Mawrth cyn y Pwyllgor. Byddwch hefyd yn cael yr opsiwn o roi cyflwyniad ysgrifenedig fel rhywbeth wrth gefn os na allwch, ar ddiwrnod y Pwyllgor, annerch y Pwyllgor am resymau technegol. Fodd bynnag, os na cheir y cyflwyniad ysgrifenedig erbyn 5pm ar y dydd Llun cyn y Pwyllgor, bydd y cyfle i gyflwyno cyflwyniad yn cael ei golli. Yna bydd y Pwyllgor yn parhau â thrafodaethau heb i sylwadau gael eu cyflwyno.

Cydnabyddir y gallai rhai aelodau o'r cyhoedd fod yn betrusgar i ddefnyddio 'zoom' neu y gallai fod ganddynt bryderon ynghylch mynediad neu gysylltedd, felly yn y cyfamser (hyd nes y gall system hybrid gynnig yr opsiwn o fynyachu'n bersonol neu o bell) rhoddir y dewis arall i'r cyfranogwyr hefyd gyflwyno eu cyflwyniadau yn ysgrifenedig i'w darllen gan aelod o'r Gwasanaethau Democratiaidd. Mae'r rheol 5 munud hefyd yn berthnasol i gyflwyniadau ysgrifenedig sy'n cael eu darllen yn y Pwyllgor. Rhaid cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor cyn gynted â phosib a heb fod yn hwyrach na 5pm ar y dydd Llun cyn y Pwyllgor (sydd fel arfer yn cyfarfod ar ddydd Mercher). Dylid anfon y ffurflen hon trwy e-bost at democratiaeth@ceredigion.gov.uk